

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 11eg 2020 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Arwel Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Jones, Euros Puw, Gwynedd Jones, Jean Roberts, Geraint Davies, Huw Charles a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan nad oedd Geraint Jones (cadeirydd) na Euros Puw (is-gadeirydd) yn bresennol cytunodd Gwynfryn Williams i gadeirio'r cyfarfod. Gan fod gymaint wedi ymddiheuro cytunwyd i basio mwyafrif o'r eitemau ar yr agenda ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, ond gan mai dim ond Gwynfryn Williams oedd yn bresennol ac wedi mynychu'r cyfarfod ym mis Rhagfyr, cytunwyd i'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Gwter Fedw'r Arian – roedd yr Arolygwr Priffyrdd am drefnu cyfarfod gyda'r perchennog tir i drafod y mater.

ii) Ffos wedi tagu ger giât Boch Rhaeadr, Arenig - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi bod mewn cysylltiad â'r Cyng. Geraint Jones i drafod y mater.

b) Adroddiad Bioamrywiaeth 2019 y Cyngor

Cytunwyd i'w basio'r mater ymlaen a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

c) Mabwysiadu Polisiâu Diogelu Data

Cytunwyd i'w basio'r mater ymlaen a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Parc Cenedlaethol Eryri

i) Cais i arddangos poster yn hysbysu'r cyfle i'r cyhoedd cael 'Dweud eu dweud – Cynllun Eryri' ar ddyfodol Eryri 2020-25.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/72/31S – Cais ol weithredol i gadw bwyler biomas allanol 370kw a thanc dwr poeth wedi ei insiwleiddio. Hendre Mawr, Frongoch.

NP5/72/128A – Newidiadau i adeilad amaethyddol presennol. Bryn Ifan, Arenig, Bala.

vi) Materion Ariannol

a) Adolygu cyflog y clerc

Gan fod cynlleied o gynghorwyr yn bresennol cytunwyd i adolygu cyflog y clerc yn y cyfarfod nesaf.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

c) Penodi Archwiliwr Mewnol a Ffioedd Archwilio 2019-20.

Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eleni. Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt.

ch) Cynllun Pensiwn Gweithle.

Cytunwyd i'w basio'r mater ymlaen a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

d) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Partneriaeth Penllyn (costau gweinyddol)

dd) Ceisiadau ariannol

i) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Ambiwylans Awyr Cymru, Cantref, CFFI Meirionnydd, Theatr Bara Caws, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Talybont, Ysgol Bro Tryweryn, Gwasanaeth OWL Cymru. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Gwter ger Preswylfa a Gwalia, Parc - gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Adran Priffyrdd i weld pryd oedd y gweithlu am gwblhau'r gwaith.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 10fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00 y.h.